

Sut Mae Darganfod Hanes Eich Ty

Dechreuwch gyda'r hyn sy'n hysbys am y ty. Os fedrwyd chi edrych ar weithredoedd y ty bydd y rhain yn rhoi rhai manylion am y newidiadau mwy diweddar yn y perchnogion; efallai iddo fod yn rhan o stad fawr neu iddo gael ei addasu o ryw ddefnydd arall, megis ysgol neu dy gorsaf.

Os yw'r ty yn hyn, gall fod o werth i chi chwilio a oes unrhyw lyfrau a ysgrifennwyd am yr ardal yn enwi'r ty. Chwiliwch yn 'Rhestr henebion' eich rhanbarth a gyhoeddir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Sir Fynwy, a llyfrau megis *Old Cottages of Snowdonia* gan Harold Hughes a Herbert L. North. Efallai hefyd fod erthyglau yng nghyhoeddiadau eich Cymdeithas Hanes Sirol.

Y cam nesaf yw dechrau olrhain bodolaeth y ty drwy wahanol ffynonellau yn yr Archifdy.

Mapiau Arolwg Ordnans

Dyma'r man gorau i ddechrau hyd yn oed os gwyddoch fod y ty yn hyn na'r map gan eu bod yn galluogi'r ymchwilydd i leoli'r ty yn fanwl mewn perthynas â thai ac eiddo eraill a nodweddion daearyddol a fydd yn gymorth iddo wrth edrych ar fapiau hyn megis Mapiau Degwm. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn os yw enw'r ty wedi newid. Mae'r Mapiau Ordnans graddfa fawr ar gael mewn tri argraffiad, yr argraffiadau cyntaf am Sir Feirionnydd, c.1888, ac am Sir Gaernarfon, c.1880-1890. Mae dyddiad yr all argraffiad o gwmpas 1900 â'r trydydd argraffiad o gwmpas 1910-1923 er na chafodd Sir Feirionnydd erioed ei wneud yn llawn. Er nad yw bob un o'r tri argraffiad ar gael yn aml iawn, y mae hi fel rheol yn bosibl i edrych ar o leiaf un argraffiad. Ni argraffwyd mapiau pum modfedd ar hugain ar gyfer yr ardaloedd teneuach eu poblogaeth. Gall cymharu'r argraffiadau o'r map sydd ar gael ddangos unrhyw ychwanegiadau ac ati i'r ty.

Mapiau Degwm

Os cael ei ddangos ar yr argraffiad cyntaf o fapiau Ordnans sydd ar gael, yna dylid edrych ar y Mapiau Degwm a Rhaniad. Gwnaethpwyd Mapiau Degwm o bob plwyf yn dilyn Deddf Cyfnewid Degwm 1836. Mae'r rhain yn amrywio o ran graddfa, maint a manyldeb ond maent fel arfer ar raddfa fawr gan ddangos adeiladau a chaeau unigol, bob un gyda rhif cyfeiriad at y Rhaniadau sy'n mynd gyda hwy, ac mae'r rhain yn rhoi enwau'r perchnogion, y preswylwyr, nifer yr enwau ac yn aml enwau'r caeau. Dosberthir y tai yn ôl enwau'r perchnogion ac felly gall olygu chwilio'n hir cyn cael hyd i dy arbennig. Efallai y bydd hi'n bosibl canfod y ty ar y Map ac yna edrych am y rhif cyfeiriad ar y Rhaniad neu gall hi fod yn haws i ganfod y ty yn y Rhaniad ac yna cael hyd iddo ar y Map.

Papurau Stadau

Os yw'r ty dan sylw yn, neu wedi bod ar ryw amser yn y gorffennol yn rhan o stâd fawr, gall fod cyfeiriadau ato yng nghofnodion gweinyddu'r stâd. Er enghraifft, ceir cyfres dda o Lyfrau Rhent, Arolygon a Mapiau o Stâd y Faenol (yng Nghaernarfon). Fodd bynnag, ceir papurau'n ymwneud â llawer o stadau eraill yn yr Archifai. Edrychwch ar y cardiau mynegai yn yr Archifdy o dan enw'r plwyf, tref neu bentref lle ceir y ty. Mae stadau eraill wedi rhoi eu cofnodion mewn lleoedd eraill (e.e. yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru neu Goleg y Brifysgol, Bangor) ac efallai y gall staff yr ystafell ymchwil gael hyd iddynt i chi.

Mapiau Eraill

Yn arbennig ar gyfer tai mewn trefi gall fod mapiau eraill ar gael o'r ardal. Edrychwch ar fynegai'r mapiau a'r cynlluniau. Mewn rhai plwyfi caewyd y tir comin a gall fod Dyfarniad Cau a Map ar gael. Gallai hefyd fod tystiolaeth ddamweiniol yng nghynlluniau rhai gweithfeydd cyhoeddus megis rheilffyrdd a phontydd sydd fel arfer yn cynnwys tai cyfagos.

Treth y Tir

Os oedd y ty ar y Map Degwm a Rhaniad, yna dylid edrych ar gofnodion Treth y Tir. Mae'r rhain yn dyddio o 1780-1832 (1746-1812 ar gyfer ardal Aberconwy) ar gyfer Sir Gaernarfon; ond nid oes rhai ar gael ar gyfer Sir Feirionnydd. Mae'r rhain yn enwi'r eiddo ac fel arfer y perchennog a'r preswlydd. Mae'n well gweithio tuag yn ôl drwy'r rhain gan y gall fod i'r ty gael ei adeiladu yn ystod y cyfnod hwn. Nid oedd pob eiddo fodd bynnag wedi'i gynnwys yn Asesiadau Treth y Tir. Ceir cofnodion mwy diweddar hefyd o drethiad yn y ddau Archifdy yng Ngwynedd.

Gweithredoedd

Bydd cyfres o weithredoedd ar gyfer eiddo yn cofnodi newid perchnogion, mwy na thebyg enw a maint yr eiddo, a weithiau'r dyddiad y cafodd ei adeiladu. Nid yw gweithredoedd fodd bynnag yn aml yn ddigon eglur, yn arbennig ynghylch eiddo mewn tref, i ganiatau adnabod ty. Hefyd gallai eiddo ychwanegol fod wedi cael ei adeiladu yn y bylchau rhwng tai neu yn eu gerddi neu iardiau. Mae Crynodebau Hawl yn ymwneud a thrafodion cynt. Mae cyfresi o weithredoedd fel hyn yn beth prin, ond mae hi bob amser yn werth bwrw golwg dros fynegai'r enwau lleoedd yn yr Archifdy. Mae gweithredoedd fel arfer i'w cael ymhlith papurau stadau neu gyfreithwyr.

Catalogau Arwerthiant

Mae'r rhain yn ffynhonnell o wybodaeth am dai a thiroedd a gafodd ei hesgeuluso, ond ar gyfer y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gall y rhain, os oes rhai ar gael, fod yn gymorth mawr, ac maent yn aml yn cynnwys mapiau a chynlluniau a weithiau ffotograffau. Dylai fod mynegai ar wahan ym mhob Archifdy ar gyfer y rhain, ond fe fydd raid, mae'n debyg, edrych drwy'r holl Gatalogau Arwerthiant ar gyfer y plwyf lle ceir y ty. Mae mynegai ar gyfrifiadur, fodd bynnag, yn cael ei baratoi o'r daliad yn Archifdy Rhanbarth Caernarfon. Os yw dyddiad gwerthu neu drosglwyddo'r eiddo yn hysbys, dylid edrych drwy'r papur newydd lleol. Un agwedd ar hanes ty yw hanes y rhai fu'n byw ynddo. Weithiau mae prinder deunydd yn golygu mai dyma'r unig agoriad.

Canlyniadau Cyfrifiad

Mae Cyfrifiad wedi cael ei gymryd bob degawd ers 1801 ac eithrio 1941. Fodd bynnag nid yw'r canlyniadau ar gael am gan mlynedd ac mae'r rhai o 1801-1831 yn rhoi ystadegau yn unig. Mae gan yr Archifdai gopiau microffilm o ganlyniadau'r cyfrifwyr ar gyfer 1841, 1851, 1861, 1871 ac 1881. Mae'r rhain yn rhestru aelodau bob teulu gan roi eu hoed, eu galwedigaeth ac (o 1851 ymlaen) eu perthynas i'r penteulu a man eu geni. Mae'r canlyniad o gymorth i nodi'n fanwl oed adeilad o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond mae absenoldeb modd i adnabod adeiladau unigol, neu arolwg trefnus a'r broblem o ail-rifo strydoedd yn gallu gwneud hyn yn amhosibl. Bydd galwedigaethau trigolion yr ardal o amgylch yn dangos y math o gymdeithas oedd yn bod lle safai'r ty bryd hynny.

Cyfarwyddiaduron Masnach A Strydoedd. Mae'r rhain yn rhestru prif drigolion preifat a masnachwyr, yn arbennig yn y trefi a'r plwyfi mwy.

Llyfrau Trethi, neu Asesiadau Trethi Plwyf o wahanol fathau. Lle bo'r rhain ar gael gallant roi i'r ymchwilydd restr o breswylwyr y ty. Gellir olrhain y ty yn ôl drwy gyfres o Lyfrau Trethi. Fe all fod problem fodd bynnag gyda chael defnyddio Llyfrau Trethi mwy diweddar.

Cofrestrï Etholwyr. Cyflwynwyd y rhain yn 1832 ac o 1868 ymlaen maent yn rhoi enw a chyfeiriad etholwyr ym mhob plwyf. Mae nifer yr enwau'n cynyddu'n sylweddol wrth ymestyn yr etholfraint yn 1867 ac 1884 ond ni chafodd gwragedd eu cynnwys hyd y ganrif hon.

Ewyllysiau A Rhestri. Os yw'r enw bedydd yn newid ym mherchnogaeth y ty efallai ei bod hi'n werth edrych am ewyllys. Ceir mynegai i ewyllysiau o 1858 hyd at 1935 yn Archifdy Rhanbarthol Caernarfon. Argymhellir chwilio drwy'r mynegal am ddeng mlynedd wedi'r farwolaeth gan na wnei'r cals am brawf ewyllys bob amser ar unwaith. Cedwir ewyllysiau cynharach yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ond mae mynegeion ar feicroffilm ar gael yn yr Archifdy yng Nghaernarfon.

Ffynonellau Eraill

Ffynonellau defnyddiol sy'n cael eu hesgeuluso'n aml yw ffotograffau a phrintiau.

Gall adneuron o gofnodion cwmnïau penseiri ac adeiladwyr, hyd yn oed os nad ydynt yn cofnodi'r adeiladu gwreiddiol, efallai roi dyddiadau newidiadau neu atgyweiriadau.

Ceir amrywiol ffynonellau eraill o wybodaeth ar adeiladau a godwyd neu a godir at ddibenion megis elusendal, ysgolion, tollbyrth, gorsafoedd, adeiladau eglwys a chapel ac ati.

Gall fod yna eitemau yn ymwneud â'r eiddo mewn casgliadau eraill o ddogfennau, ac felly mae'n bwysig iawn edrych drwy'r mynegai enwau lleoedd yn yr Archifdy.

Ar waethaf y swm cynyddol o ddeunydd sydd ar gael yn yr Archifdai, mae'n dal yn bosibl methu canfod dim wrth olrhain hanes ty a rhaid i ymchwilyr sylweddoli cyn dechrau chwilio na fwriadwyd y cofnodion gan y rhai a'u gwnaeth i gynorthwyo'r ymchwil hwn. Gall astudlaeth fanwl a llawn olygu dyddiau a hyd yn oed wythnosau o ymchwil, a rhaid i'r ymchwilydd fod yn barod i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith ei hun, er y bydd staff yn Archifdy yn gallu cynnig cyngor.

Llyfrau

Ceir llawer o lyfrau ar y pwnc hwn. Dau lyfr defnyddiol sydd ar gael yn yr Archifdai ac mewn llawer o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yw:

D. Iredale, *Discovering your Old House*, Shire Publications.

J. W. Harvey, *Sources for the History of Houses*, British Records Association, 1974.